**Tasg 1**

# Yr hen a’r newydd

1. Beth ydy ‘uwchgylchu’?

| |
|---|
| |

2. Ysgrifennwch **Cywir** neu **Anghywir** yn y grid:

| | | **Cywir / Anghywir** |
|---|---|---|
| 1. | Mae Carwyn yn meddwl bod uwchgylchu’n hwyl. | |
| 2. | Mae Aled yn meddwl bod uwchgylchu’n ddiddorol. | |
| 3. | Mae Aled yn meddwl bod yr het yn wych. | |
| 4. | Mae Carwyn yn meddwl bod y sbectol haul yn cŵl. | |
| 5. | Mae Aled yn cytuno gyda Carwyn am y sbectol haul. | |

Cymharwch eich atebion chi gydag atebion eich partner chi.

Ewch i’r dudalen nesaf.

3. Mae Carwyn yn uwchgylchu het, sbectol haul, a thiwb creision. Beth ydych chi’n feddwl o’r:

    - het?
    - sbectol haul?
    - tiwb creision?

    Cofiwch roi rhesymau.

4. Beth mae Aled yn feddwl o’r anrheg? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| tybed | I wonder | posibiliadau | possibilities |

5. Beth sy yn y pecyn, tybed? Mewn grŵp, siaradwch am bosibiliadau, gan roi rhesymau, a dewiswch **un**.

Dw i’n meddwl bod … yn y pecyn achos …

Ewch i’r adran **Ateb** i weld beth sy yn y pecyn.

6. Beth ydych chi’n feddwl o uwchgylchu?